# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Isca/Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 30 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78964-717-4



(h) Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym................................................................................ 8

Ansawdd profiad y claf ..........................................................................................9

Darparu gofal diogel ac effeithiol ........................................................................15

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..............................................................24

4. Beth nesaf? ...................................................................................................... 28

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.................................................... 30

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........31

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol..........................................................32

Atodiad C - Cynllun gwella…………………………………………… ………….33

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Isca, Cadoc House, High Street, Caerllion, NP18 1AZ ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 30 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Isca yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ac roedd y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar un lefel, gan ddarparu mynediad hawdd i unrhyw un ag anawsterau symudedd.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o gleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn rhagorol.

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn fanwl ar y cyfan, ond gwnaethom nodi rhai meysydd y mae'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lawn am ofal cleifion yn cael ei chofnodi.

Roedd gan y practis gyfres o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn galluogi'r staff i gael gwybodaeth i'w helpu gyda'u gwaith o ddydd i ddydd. Rydym wedi argymell bod y dogfennau hyn yn cael eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac yn cyd-fynd â rheoliadau Cymru.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, ond roedd angen i'r staff dderbyn rhywfaint o hyfforddiant arall er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel

- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân
- Roedd yr holl gyfleusterau clinigol a'r cyfleusterau i gleifion ar y llawr gwaelod, a oedd yn golygu bod y practis yn hygyrch ac yn addas i gleifion â phroblemau symudedd
- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn
- Gwelwyd bod gwastraff yn cael ei storio'n briodol a dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cofnodi asesiadau risg canser a'r rhesymau dros adalw yn well yng nghofnodion y cleifion yn ogystal â gwneud nodiadau mwy personol
- Mae angen i'r staff gael hyfforddiant cyfredol mewn diogelwch tân
- Mae angen derbyn asesiadau risg gan y darparwyr a wnaeth eu cwblhau a mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu
- Mae angen creu prosesau gwell i sicrhau bod archwiliadau clinigol priodol a gwelliannau yn cael eu gweithredu o ganlyniad i hynny
- Gweler Atodiad C i weld y cynllun gwella llawn

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Isca yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerllion a'r ardal o'i hamgylch. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dau hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol y mae un ohonynt yn hyfforddai, un rheolwr practis ac un rheolwr cynorthwyol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar ran y GIG i blant a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat i oedolion.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Isca yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd deintyddfeydd a chyfleusterau eraill i gleifion y practis ar y llawr gwaelod a oedd yn ei gwneud yn bosibl i bobl ag anawsterau symudedd gael eu trin yn y practis.

Roedd gwybodaeth berthnasol i gleifion yn cael ei harddangos yn y dderbynfa/ardal aros. Er mwyn gwella hyn, rydym yn argymell y dylid arddangos yr amseroedd agor a'r rhif ffôn y tu allan i oriau wrth ymyl prif fynedfa'r practis.

Roedd ffurflenni adborth cleifion ar waith a oedd yn galluogi'r practis i nodi themâu er mwyn gwneud gwelliannau i wasanaethau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

> *"Mae'r holl aelodau o staff yn gwrtais, yn barod i helpu ac yn gofalu am bob claf.   Byddwn yn ei argymell yn gryf i deulu a ffrindiau sydd angen ymuno â phractis deintyddol".*

> *"Rwyf fi a fy nheulu wedi bod yn dod i'r practis deintyddol hwn ers 2000 ac mae pob aelod o'r tîm wedi bod yn garedig ac yn broffesiynol bob amser ac mae pob triniaeth a roddwyd wedi bod o safon uchel iawn".*

> *"Gwasanaeth gwych".*

*"Yn barod i helpu ac yn gyfeillgar iawn. Bob amser yn wybodus".*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth benodol am y practis, ac amrywiol bamffledi hybu iechyd a hyrwyddo triniaeth gosmetig.

Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd poster yn nodi y gellid trefnu gwasanaeth cyfieithu i unrhyw un lle nad Saesneg oedd ei iaith gyntaf.

Roedd rhestr brisiau yn y dderbynfa/ardal aros yn dangos costau triniaethau preifat. Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth i hysbysu cleifion mai dim ond plant dan 18 oed a gaiff eu trin fel cleifion y GIG ac nad oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r cleifion hyn.

Roedd arwydd yn dangos enw a rhif ffôn y practis wedi'i leoli y tu allan i'r adeilad ac rydym wedi argymell y dylid arddangos oriau agor a rhif ffôn mewn argyfwng y tu allan i oriau i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen arddangos oriau agor a rhif ffôn mewn argyfwng y tu allan i oriau y practis

## Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn gallu cael sgyrsiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd, ac roedd swyddfa breifat ar gael hefyd, os oedd angen.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn

hefyd. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn eu trin â pharch pan oeddent yn mynd i'r practis.

Roedd 9 egwyddor[1] y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd ac roedd y copïau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun a oedd ar gael yn y dderbynfa. Fodd bynnag, gan fod y practis wedi cofrestru ag AGIC yn ddiweddar, bydd angen ychwanegu'r daflen wybodaeth i gleifion a gaiff ei chyflwyno fel rhan o'r broses hon i'r wefan a sicrhau ei bod ar gael i gleifion. Bydd hyn yn darparu rhagor o wybodaeth nad oedd wedi'i chynnwys yn nhaflen wybodaeth bresennol y practis.

Mae angen diwygio'r datganiad o ddiben[2] a ddarparwyd ar ddiwrnod yr ymweliad hefyd er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae'r ddogfen yn rhestru sefydliadau a rheoliadau yn Lloegr nad ydynt yn gymwys yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, nid oedd yn cynnwys y trefniadau i gleifion sydd angen gofal brys neu driniaeth y tu

---

[1]Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

[2]Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i hiw.org.uk

allan i oriau. Bydd angen cyhoeddi'r wybodaeth hon hefyd ar wefan y practis a sicrhau ei bod ar gael i gleifion ar gais.

Gwelsom dystiolaeth o'r cofnodion cleifion a welsom fod y caniatâd ar gyfer triniaethau wedi'i gofnodi'n glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid ychwanegu'r daflen wybodaeth i gleifion a gyflwynwyd i AGIC wrth gofrestru i'r wefan a sicrhau ei bod ar gael i gleifion yn y practis.

Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys trefniadau y tu allan i oriau a thynnu sefydliadau a rheoliadau yn Lloegr nad ydynt yn gymwys yng Nghymru oddi yno. Mae angen cyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar wefan y practis a darparu copi ohono i gleifion ar gais.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd ambell un o'r cleifion wrthym eu bod yn siaradwyr Cymraeg a'u bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Roedd hysbysiad yn y dderbynfa/ardal aros yn dangos i gleifion bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i unrhyw un sydd am dderbyn gwasanaethau mewn iaith arall.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion o gynlluniau triniaethau ysgrifenedig wedi'u ffeilio. Mae hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

## Gofal amserol

Dywedodd y staff yn y practis wrthym fod apwyntiadau'n cael eu darparu mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn trefnu apwyntiad.

Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd y staff wrthym fod neges peiriant

ateb y practis yn cynnwys y rhif ffôn y tu allan i oriau, ond yn sgil argymhelliad blaenorol, dylid arddangos y wybodaeth hon y tu allan i'r practis hefyd.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth, a chadarnhaodd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd ein holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan Bractis Deintyddol Isca yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben.

### Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. O ganlyniad, roedd y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn addas i unrhyw un oedd ag anhawster symudedd gan eu bod wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd y drysau yn ddigon llydan i ganiatáu ar gyfer cymhorthion symudedd.

Roedd y cyfleusterau toiled yn cael eu rhannu â gwasanaeth gofal iechyd arall yn yr un adeilad ac yn darparu cyfleusterau golchi a sychu dwylo. Roedd un toiled yn ddigon mawr ar gyfer cymhorthion symudedd a/neu gadeiriau gwthio. Gosodwyd canllawiau i ddarparu cymorth ychwanegol. Nid oedd biniau gwaredu deunyddiau misglwyf mewn unrhyw un o'r toiledau cyhoeddus ar adeg ein hymweliad a gwnaethom ofyn i staff y practis deintyddol godi'r mater hwn â landlordiaid yr adeilad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig godi'r mater â landlordiaid yr adeilad er mwyn sicrhau bod biniau gwaredu deunyddiau misglwyf yn y toiledau cyhoeddus.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer cwynion. Gwnaethom ofyn i'r staff adolygu'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'u proses gwyno er

mwyn sicrhau eu bod yn gyson, gan fod rhywfaint o'r manylion ar gyfer AGIC ar goll.

Gwelsom fod gwybodaeth Gweithio i Wella[3] wedi'i harddangos yn yr ardal aros i gefnogi claf â phryder sy'n ymwneud â thriniaeth y GIG. Roedd angen gosod y fersiwn diweddaraf o'r poster yn lle'r hen un ar adeg ein hymweliad.

Roedd gan y practis ffeil gwynion a oedd yn cael ei ddefnyddio i gofnodi a monitro unrhyw gwynion a dderbyniwyd, ac ymateb iddynt. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn y 12 mis diwethaf; fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddent yn adolygu'r cwynion i nodi unrhyw themâu, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cyflwyno ffurflenni adborth cleifion yn ddiweddar fel ffordd o gael adborth cleifion ar y gwasanaeth. Adolygwyd a thrafodwyd y ffurflenni a gwblhawyd yn ddiweddar mewn cyfarfodydd staff i nodi unrhyw themâu a oedd yn codi. Dywedwyd wrthym y byddai dadansoddiad rheolaidd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau y caiff sylwadau eu hadolygu ac y gwneir newidiadau priodol i'r gwasanaeth.

Defnyddiodd y staff system gofnodi cleifion electronig i gasglu sylwadau llafar neu adborth cyffredinol gan gleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrin ag unrhyw sylwadau llafar/adborth yn y fan a'r lle a'u defnyddio fel ffordd ychwanegol o nodi gwelliannau i'r gwasanaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â phroses gwyno'r practis wedi'i diweddaru i gynnwys manylion am AGIC

[3] Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr.

Gwnaethom nodi diffyg archwiliadau clinigol ac argymell y dylid datblygu'r ardal hon i ddangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol.

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu'n fanwl ar y cyfan, ond gwnaethom nodi rhai meysydd y mae'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lawn am ofal pob claf yn cael ei chofnodi.

### Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Mae'r practis deintyddol wedi'i leoli yng nghanolfan feddygol Isca, ac mae ganddi brydles cynnal a chadw â'r feddygfa ar gyfer yr holl waith cynnal a chadw.

Roedd gan y practis ardal ar y llawr gwaelod er mwyn darparu ei holl wasanaethau deintyddol. Roedd gan bractis deintyddol Isca dderbynfa/ardal aros agored ac roedd yn olau ac yn daclus. Roedd yr holl ddeintyddfeydd yn

cynnwys y cyfarpar priodol ac mewn cyflwr da. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol yn ôl pob golwg ac roedd pob ardal o fewn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Hefyd, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn, yn eu barn nhw.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân cyfredol, ond roeddent wedi cofrestru ar ei gyfer.

Roedd allanfeydd argyfwng yn amlwg, ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd amrywiol bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod y safle yn addas i'r diben. Fodd bynnag, roedd rhai polisïau/gweithdrefnau ar goll[4] ac mae angen eu rhoi ar waith i gydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Cynhaliodd y practis nifer o asesiadau risg yn ystod y mis diwethaf ond nid oeddent wedi derbyn yr adroddiadau a'r canlyniadau ar adeg ein hymweliad.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol/dadebru brys diweddaraf. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif cymorth cyntaf wedi dod i ben. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gydberthynas dda â'r meddygon teulu yn y feddygfa ac y byddent yn eu helpu mewn argyfwng.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[5].

---

[4]Nod y polisïau/gweithdrefnau gofynnol yw sicrhau bod y safle yn addas at y diben a bod gweithdrefn wrth gefn mewn argyfwng ar gael

[5] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod yr holl asesiadau risg wedi'u derbyn a bod unrhyw gamau gweithredu wedi'u cwblhau/ar fin cael eu cwblhau

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau cymorth cyntaf wedi'u hysgrifennu mewn polisi/gweithdrefn a bod yr holl staff yn ymwybodol ohonynt

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân cyfredol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau a restrir eu rhoi ar waith yn y practis yn unol â Rheoliad 8

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[6]. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella i'r staff eu hystyried yn unol â chanllaw WHTM 01-05, yn enwedig y llif aer sy'n dod i mewn i'r ystafell ac sy'n ei gadael.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio adnodd archwilio a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

---

[6] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol mewn bin diogel y tu allan i'r practis. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Gwelwyd bod cyffuriau argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn hawdd i'r cleifion/plant gael gafael arnynt. Cadarnhaodd y staff y byddent yn eu symud i leoliad priodol er mwyn iddynt allu cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio hen gyffuriau a chwistrelli a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU)[7].

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

---

[7] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig gadarnhau na all y cleifion/plant gael gafael ar yr holl gyffuriau argyfwng, ond y gellid cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisi yn cynnwys manylion ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw a siart llif yn hysbysu'r staff o'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Roedd y siart llif wedi'i arddangos yng nghegin y staff.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes diogelu oedolion a phlant. Roedd dau aelod o staff wedi'u cofrestru i gwblhau eu hyfforddiant. Roedd y practis wedi enwebu aelodau o staff fel yr arweinwyr diogelu. Mae'n gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu, a gall roi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r prif ddeintydd a/neu reolwr y practis a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[8] (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth

[8] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a gwnaethom nodi bod hwn yn arfer da.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael ei hyfforddi'n addas i ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r deintyddfeydd yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr offer deintyddol mewn cyflwr boddhaol ac roedd digon ohonynt ar gael.

Roedd trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid adolygu a diweddaru'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd gan gynnwys y polisi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X[9] yn arddangos y rheolau lleol ond gwnaethom argymell y dylid eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn rheoliadau.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.  Gwnaethom gynghori'r staff ar y diwrnod i ystyried defnyddio adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio, a fydd yn eu helpu i sicrhau arfer da a chydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol wrth ddefnyddio ymbelydredd ïoneiddio.

---

[9] Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau mewn deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffeil a'r polisi diogelu rhag ymbelydredd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cynhaliodd y practis nifer gyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Gwnaethom argymell y dylid datblygu'r maes hwn gan y bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig roi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Ychydig o dystiolaeth a welsom o broses ffurfiol o ran asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal â hyn, nid oedd unrhyw bolisi/gweithdrefn ar waith o ran ymchwil a/neu archwiliad clinigol. Argymhellwn, felly, fod unrhyw adolygiadau ac archwiliadau clinigol yn cael eu dogfennu a'u defnyddio i gefnogi newidiadau yn y practis. Bydd hyn yn galluogi'r practis i ddangos ei fod yn dilyn arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol.

Gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaeth y practis gofrestru ag AGIC, gwnaethom atgoffa'r staff bod angen cynnal ymweliadau yn unol â'r rheoliadau.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth gan Ddeoniaeth Cymru[10]. Mae'r 'Maturity

[10] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Matrix Tool' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli a chofnodi adolygiadau o wasanaethau ac archwiliadau clinigol, gan gynnwys canlyniadau gweithgarwch o'r fath a pholisi'r practis

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ymweld â phractis deintyddol Isca, gan gwmpasu'r meysydd a restrir o dan Rheoliad 23

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd ac roedd nodiadau papur yn cael eu storio mewn cabinet dan glo.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y nodiadau y gwnaethom eu hadolygu yn fanwl ar y cyfan ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi'u cynllunio er mwyn hyrwyddo lles a diogelwch cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhai enghreifftiau lle'r oedd y cofnodion yn anghyson ac angen eu gwella:

- Mae angen cwblhau asesiadau risg canser
- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson h.y. defnydd o alcohol a thybaco. Lle roedd cofnodion y cleifion yn nodi eu bod yn smygwyr, prin oedd y cofnodion a oedd yn nodi pryd y cynigiwyd cyngor ar roi'r gorau i smygu neu wybodaeth amdano

- Mae angen gwella'r dull o gofnodi canllawiau adnodd 'Delivering Better Oral Health' [11]
- Ni chafodd y rhesymau dros adalw eu cofnodi bob amser
- Lle y bo'n gymwys, mae angen personoli'r cofnodion ar gyfer pob claf
- Roedd anghysondebau o ran cofnodi Archwiliadau Periodontol Sylfaenol[12] (BPE)

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid rhoi sylw penodol i wella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y gellir cofnodi asesiadau risg canser; rhesymau dros adalw; cyngor ar roi'r gorau i smygu. Yn ogystal â hyn, mae angen i gofnodion Archwiliadau Periodontol Sylfaenol fod yn gyson yn ogystal â dogfennu adnodd 'Delivering Better Oral Health'.

[11] Mae adnodd 'Delivering Better Oral Health' yn cynnwys taflen ffeithiau a chanllawiau i gleifion ar alcohol a maeth. Dyluniwyd yr adnodd sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu timau deintyddol i wella a chynnal eu hiechyd deintyddol a'u hiechyd cyffredinol.

[12] Mae archwiliad periodontol yn archwiliad clinigol o'r periodontiwm (deintgig).

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae hwn yn bractis sefydledig, y mae'r prif ddeintydd yn berchen arno ac yn ei arwain, ac a gefnogir gan reolwr practis a rheolwr cynorthwyol. Roedd tystiolaeth gref i ddangos ei fod yn bractis deintyddol sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod yr arferion gwaith yn aros yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom argymell fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu rheoliadau Cymru.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn sawl maes. Roedd hyfforddiant rhai aelodau o'r staff wedi dod i ben, ond roeddent wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

**Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Isca, ac ef hefyd yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig[13]. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o bolisi chwythu'r chwiban a dywedwyd wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a ddarperir i gleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen, priodol os oedd angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau, gan fod rhai ohonynt yn gyffredinol. Diben hyn oedd sicrhau eu bod yn rhoi mwy o fanylion perthnasol i'r staff, a'u bod yn berthnasol i ofynion y practis.

Gwelsom fod yr holl staff wedi llofnodi taflen i ddangos eu bod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau a'u bod yn eu deall. Yn ogystal â hyn, roedd y polisïau yn cynnwys dyddiadau adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau'r arferion diweddaraf. Roedd rhai polisïau a gweithdrefnau yn enwi rheoliadau yn Lloegr a chyrff arolygu nad ydynt yn gymwys yng Nghymru. Gwnaethom argymell bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r rheoliadau priodol yng Nghymru a, lle y bo'n briodol, y cyrff arolygu cymwys.

Caiff yr argymhellion sy'n ymwneud â datganiad o ddiben y practis a'r canllawiau i gleifion eu dogfennu yn y wybodaeth i gleifion yn yr adran sy'n trafod ansawdd profiad y claf yn yr adroddiad hwn. Bydd y dogfennau wedi'u diweddaru yn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu

[13] Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

cyfer. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, gwnaethom atgoffa'r unigolyn cofrestredig o'i gyfrifoldeb i gynnal ymweliadau yn unol â rheoliad 23. Mae hyn yn golygu bod ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth reoleiddiedig ei reoli, ac am sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn dogfennu'r arferion lleol a ddefnyddir yn y practis, a'u diweddaru i adlewyrchu'r rheoliadau a/neu'r cyrff proffesiynol sy'n gymwys i bob practis yng Nghymru.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys polisi recriwtio staff, polisi cyfle cyfartal, polisi disgyblu a pholisi chwythu'r chwiban.

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Yn sgil hyd gwasanaeth y staff yn y practis, roedd diffyg gwybodaeth cyflogaeth ar gael. Fodd bynnag, gwnaeth y staff ddarparu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer unrhyw ddechreuwr newydd, gan gynnwys geirdaon, gwiriadau adnabod, cyfweliad a sesiynau sefydlu.

Dywedodd y staff wrthym fod system arfarnu newydd ar waith ac y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal yn ddiweddarach eleni.

Gwelsom rai tystysgrifau staff yn dangos tystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd angen hyfforddiant diogelwch tân ar y staff.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol yn fisol. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hynny ar gael. Rhwng y cyfarfodydd ffurfiol, dywedodd y staff eu bod yn trafod materion yn ddyddiol, ond bod hynny'n digwydd mewn ffordd anffurfiol, nad oedd yn cael ei chofnodi. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar ffeil, ar gyfer unrhyw aelod o'r staff nad oedd yn

gallu mynd i'r cyfarfodydd tîm ffurfiol. Roedd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer yr holl staff clinigol.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Isca

## Dyddiad arolygu: 30 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Isca

## Dyddiad arolygu: 30 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen arddangos oriau agor a rhif ffôn mewn argyfwng y tu allan i oriau y practis | Rheoliad 6 (1) atodlen 2 (d)<br>Safonau Iechyd a Gofal 3.2 cyfathrebu'n effeithiol a 4.2 gwybodaeth i gleifion | Mae hyn eisoes wedi'i argraffu a'i arddangos ar y fynedfa i'r adeilad. | Donna Garrett | Gweithredwyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid ychwanegu'r daflen wybodaeth i gleifion a gyflwynwyd i AGIC wrth gofrestru i'r wefan a sicrhau ei bod ar gael i gleifion yn y practis. | Rheoliad 6 (2) a (3) | Mae hon wedi'i diweddaru a'i throsglwyddo i'n tîm TG i'w gosod ar ein gwefan. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys trefniadau y tu allan i oriau a thynnu sefydliadau a rheoliadau yn Lloegr nad ydynt yn gymwys yng Nghymru oddi yno. Mae angen cyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar wefan y practis a darparu copi ohono i gleifion ar gais. | Rheoliad 5 (1) a (2) | Mae hyn wedi'i ddiweddaru. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Mae angen i'r darparwr cofrestredig godi'r mater â landlordiaid yr adeilad er mwyn sicrhau bod biniau gwaredu deunyddiau misglwyf yn y toiledau cyhoeddus. | Rheoliad 22 (2) (a) (c)<br>Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch<br>Rheoliad y Gweithle (Iechyd, Diogelwch a | Cynhaliwyd cyfarfod â rheolwr y practis meddygol a fydd yn mynd i'r afael â'r mater. | Donna Garrett | Gweithredwyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Lles) 1992 | | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â phroses gwyno'r practis wedi'i diweddaru i gynnwys manylion am AGIC | Rheoliad (4) (a) | Mae hyn wedi'i ddiweddaru. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod yr holl asesiadau risg wedi'u derbyn a bod unrhyw gamau gweithredu wedi'u cwblhau/ar fin cael eu cwblhau | Rheoliad 16 (1) (a) (b)<br>Safonau Iechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae'r practis yn dal i aros am ein asesiadau risg Iechyd a Diogelwch a Thân. Rydym wedi cysylltu â DBG eto i weld pryd y gallwn eu disgwyl. | Donna Garrett | Ddim yn siŵr |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau cymorth cyntaf wedi'u hysgrifennu mewn polisi/gweithdrefn a bod yr holl staff yn ymwybodol ohonynt | Rheoliad 8 (1) (q) | Mae hyn wedi'i ddiweddaru | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch | Rheoliad 17 (1) (a) a 22 (4) | Mae hyn ar waith yn y practis, ond mae angen i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant | Donna Garrett | Ionawr/Chwefror 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| tân cyfredol | (c) | ar-lein. | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau a restrir eu rhoi ar waith yn y practis yn unol â rheoliad 8 | Rheoliad 8 (1) (a) - (q) | Cwblhawyd hyn. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Mae angen i'r darparwr cofrestredig gadarnhau na all y cleifion/plant gael gafael ar yr holl gyffuriau argyfwng, ond y gellid cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng | Rheoliad 16 (1) (b)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae'r holl gyffuriau a chyfarpar mewn argyfwng wedi'u symud i silff uwch, lle na all plant gael gafael arnynt. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffeil a'r polisi diogelu rhag ymbelydredd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol | Rheoliad 8 (1) (b) (d) (e) (k)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae'r diweddariadau yn mynd rhagddynt o hyd ac rydym am geisio eu cwblhau o fewn tri mis. | Donna Garrett | Chwefror/Mawrth 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r darparwr cofrestredig roi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith | Rheoliad 8 (1) (n) a 16 (2) (d) (i) (ii) (iii)<br>Safonau Iechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Cysylltwyd â'r deoniaid deintyddol i archwilio gwybodaeth, â'r bwriad o ddechrau ar yr archwiliadau yn y flwyddyn newydd. | Donna Garrett | Cychwyn ym mis Ionawr 2019 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli a chofnodi adolygiadau o wasanaethau ac archwiliadau clinigol, gan gynnwys canlyniadau gweithgarwch o'r fath a pholisi'r practis | Rheoliad 8 (1) (n) & 13 (8) a 16 (1) (a) & (2) (d) (i) (ii) (iii)<br>Safonau Iechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Byddwn yn dechrau cynnal archwiliadau clinigol ym mis Ionawr 2019. | Donna Garrett | Cychwyn ym mis Ionawr 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig ymweld â phractis deintyddol Isca, gan gwmpasu'r meysydd a restrir o dan Rheoliad 23 | Rheoliad 23 (1) (3) (4) (a) (b) (c) (5) (a) (6) | Mae’r darparwr cofrestredig yn y practis bob wythnos oni fydd ar wyliau. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid rhoi sylw penodol i wella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau y gellir cofnodi asesiadau risg canser; rhesymau dros adalw; cyngor ar roi'r gorau i smygu. Yn ogystal â hyn, mae angen i gofnodion Archwiliadau Periodontol Sylfaenol fod yn gyson yn ogystal â dogfennu adnodd 'Delivering Better Oral Health'. | Rheoliad 20 (1) (a)(i)(ii)<br>Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw Cofnodion | Cymerwyd camau i sicrhau bod cofnodion clinigol yn cael eu diweddaru a’u teilwra yn unol â hynny.<br>Cynhaliwyd cyfarfod â holl aelodau o’r tîm ynglŷn â’r meysydd hyn, a chânt eu hychwanegu at gofnodion clinigol cleifion ar hyn o bryd. | Donna Garrett | Gweithredwyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn dogfennu'r arferion lleol a ddefnyddir yn y practis, a'u diweddaru i adlewyrchu’r rheoliadau a/neu'r cyrff proffesiynol sy'n gymwys i bob practis yng Nghymru. | Rheoliad 8 (6) | Diweddarwyd y polisïau yr oedd angen eu diweddaru â rheoliadau AGIC. | Donna Garrett | Gweithredwyd |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Justin Roberts**

**Teitl swydd:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **29/11/2019**